

Taliadau Uniongyrchol

Eich Bywyd – Eich Dewis

Rhoi dewis gwirioneddol i chi dros y gefnogaeth yr ydych ei angen

I gael copi o'r daflen hon mewn fformat gwahanol megis Braille, print bras neu dâp sain, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 803444. Mae fersiwn haws ei ddarllen hefyd ar gael.

Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Os ydych yn ei chael yn anodd rheoli agweddau o'ch bywyd yn sgil oedran, anabledd, neu'n gofalu am rywun, gall Gyngor Sir y Fflint roi arian i chi i drefnu'r cymorth sy'n iawn i chi. Mae hwn yn cael ei alw'n Taliad Uniongyrchol.

Gallwch ddefnyddio eich Taliad Uniongyrchol i drefnu cefnogaeth sy'n iawn i'ch anghenion unigol a'ch ffordd o fyw a'ch amgylchiadau personol. Golygai hyn y gallwch fod yn greadigol gyda'ch cefnogaeth os y dewiswch hynny.

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn golygu bod gennych fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth rydych ei angen, a gallwch drefnu llawer mwy o drefniadau hyblyg na'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor.

Mae pobl yn Sir y Fflint yn defnyddio eu Taliadau Uniongyrchol i drefnu pethau fel:

- Cefnogaeth gyda bywyd dyddiol a gweithgareddau
- Cefnogaeth gyda gofal personol
- Gofal seibiant er mwyn rhoi seibiant i'r gofalwr
- Cyfuno taliadau uniongyrchol gyda phobl eraill i wneud pethau gyda'i gilydd
- Offer a thechnoleg i fod yn fwy annibynnol
- Cefnogaeth sy'n helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau a gallu
- Cefnogaeth i fynd allan i'r gymuned
- Cyfleoedd i gysylltu gyda phobl eraill

Mae mwy a mwy o bobl yn dewis derbyn Taliad Uniongyrchol, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn dweud wrthym ni fod y trefniadau hyblyg maent wedi eu trefnu wedi newid eu bywydau er gwell.

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn benderfyniad personol a fydd yn eich galluogi i gyflawni ansawdd bywyd gwell, gobeithio. Mae Cyngor Sir y Fflint yn deall bod cymryd rheolaeth a phenderfynu derbyn Taliad Uniongyrchol, yn gallu bod yn benderfyniad mawr i rai, a gall y wybodaeth a dderbyniwch ymddangos yn ddryslyd i ddechrau.

Rydym eisiau sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei angen arnoch i wneud y dewisiadau sy'n iawn i chi.

Mae gennym dîm Taliadau Uniongyrchol profiadol yn y cyngor sydd yno i'ch cefnogi gydag unrhyw ymholiadau neu wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Byddwn yn rhoi cymaint o gymorth a sicrwydd a phosib i chi, nes eich bod yn teimlo'n hyderus i reoli trefniadau Taliad Uniongyrchol eich hun.

Nid oes gan Daliadau Uniongyrchol unrhyw beth i wneud â budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol. Ni fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio eich budd-daliadau mewn unrhyw ffordd.

Cofiwch, rhaid unrhyw gefnogaeth yr ydych yn ei drefnu eich helpu i ddiwallu eich anghenion asesedig a chyflawni'r nodau yr ydych wedi eu cytuno gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint – Bydd y rhain wedi cael ei hysgrifennu yn eich cynllun gofal a chymorth.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn un dewis ar gyfer cefnogaeth; os fyddai well gennych chi i'r cyngor drefnu gwasanaethau ar eich cyfer, gallent wneud hynny. Mae nifer o bobl yn dewis cymysgedd o Daliadau Uniongyrchol a gwasanaethau wedi'u trefnu gan y Cyngor.

Pwy all gael Taliad Uniongyrchol?

Os ydych angen cymorth ychwanegol i reoli agweddau o'ch bywyd oherwydd effeithiau:

- henaint
- Anabledd dysgu neu gorfforol
- Anhawster iechyd meddwl
- Salwch hirdymor
- Cyfrifoldeb rhienirol ar gyfer plentyn gydag anabledd
- Cyfrifoldebau gofalu

Mae posib i chi gael Taliad Uniongyrchol i drefnu'r gefnogaeth yr ydych ei angen.

Fel arfer, gallwch gael Taliad Uniongyrchol o 16 oed. Os ydych o dan 16 oed, gall y taliad uniongyrchol gael ei dalu i'ch rhiant (rhieni) neu ofalwr(ofalwyr) cyfreithiol.

Sut alla i gael Taliad Uniongyrchol?

I gael Taliad Uniongyrchol rhaid i chi gael asesiad o'ch anghenion personol. Os oes gennych weithiwr cymdeithasol neu gydlynnydd gofal, cysylltwch â nhw. Os nad, ffoniwch Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar 01352 803444 neu Wasanaethau Cymdeithasol i Blant ar 01352 701000.

Os ydych yn gymwys i gael cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint, bydd ymarferydd gofal cymdeithasol yn cytuno ar gynllun gyda chi er mwyn bodloni eich anghenion a nodau.

Byddent yn siarad gyda chi am y ffyrdd y gallwch ddewis defnyddio eich Taliad Uniongyrchol a byddwch hefyd yn cytuno ar faint o arian y byddwch yn ei dderbyn i weithredu'r Cynllun Cefnogi.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich cefnogi chi i benderfynu sut i reoli eich Taliad Uniongyrchol.

Os ydych eisoes wedi derbyn asesiad ac eisoes yn derbyn gwasanaethau, gallwch wneud cais i newid i Daliadau Uniongyrchol yn lle. I gael rhagor o wybodaeth, siaradwch gyda'ch ymarferydd gofal cymdeithasol, neu'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol.

Os ydych wedi cael gwybod nad ydych yn gymwys i dderbyn cefnogaeth, ni fyddwch yn gallu rhoi Taliad Uniongyrchol i chi.

Beth sydd ynghlwm rheoli fy Nhaliadau Uniongyrchol?

Gyda'r dewis a'r hyblygrwydd mae Taliadau Uniongyrchol yn ei gynnig, mae cyfrifoldeb i wario'r arian yn ddoeth. Byddwn yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod y trefniant yn iawn i chi.

Os ydych yn dewis cyflogi rhywun fel Cymhorthydd Personol, mae gennych yr holl gyfrifoldebau arferol fel cyflogwr. Mae cymaint o gefnogaeth a chymorth ar gael i chi ddeall a rheoli hyn, felly peidiwch â phoeni.

Beth os fydd fy anghenion yn newid?

Os yw eich anghenion yn newid gallwch newid eich Taliad Uniongyrchol. Os ydych yn darganfod nad yw'r Taliadau Uniongyrchol yn iawn i chi, gallwch newid i gael gwasanaethau wedi'u trefnu gan y cyngor.

Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint Wasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol dynodedig. Mae'r tîm yn arbenigo mewn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl sy'n dewis defnyddio taliadau uniongyrchol.

Yn ogystal â'r holl wybodaeth a chymorth ymarferol maent yn ei ddarparu, gall y tîm eich helpu i ystyried sut i ddefnyddio'r arian sydd ar gael i gyflawni'r pethau sy'n bwysig i chi.

Cysylltwch â nhw i gael rhagor o wybodaeth.

Oes angen i mi dalu am unrhyw beth?

Efallai y gofynnir i chi dalu rhan o'r gost tuag at eich cefnogaeth. Os oes angen i chi dalu rhywbeth, bydd y swm yr un faint os yw eich cefnogaeth yn cael ei drefnu ar eich cyfer gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu os ydych yn dewis Taliadau Uniongyrchol.

Beth ddylwn wneud i ddarganfod mwy am y Taliadau Uniongyrchol?

Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol neu ffoniwch:

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol
Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3XT

Rhif ffôn: 01352 701100
E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion 01352
803444 neu Wasanaethau Cymdeithasol i
Blant 01352 701000

Pobl sydd yn yr ysbyty:

Gofynnwch i weld Gweithiwr Cymdeithasol Ysbyty Sir y Fflint neu ffoniwch 01352 803444

